

Cynllun Lles Caerdydd
2023–2028

Adroddiad
Blynyddol
2024/25







Cynnwys

Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Amcan Lles

Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu 8

Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn 15


Cefnogi Pobl Allan o Dlodi 20

Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus 27

Prifddinas sy'n Gweithio Dros Gymru 33

Caerdydd Un Blaned 39

Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau
Cyhoeddus 47



Rhagair

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni ei ail Gynllun Lles Lleol (2023-28) a'i uchelgais gyffredinol o sicrhau bod Caerdydd yn lle gwell fyth i fyw a gweithio, am genedlaethau i ddod. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflawni blaenoriaethau partneriaeth y BGC ar gyfer gweithredu.

Rydym yn parhau i fod yn falch o statws Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF yn y DU. Yn 2024/25, mae partneriaid wedi gweithio'n galed i sicrhau bod hwn yn fwy na dim ond teitl - ei fod yn cael ei adlewyrchu ym mhrofiadau beunyddiol plant a phobl ifanc ledled y ddinas. O hyrwyddo datblygiad blynyddoedd cynnar a chefnogi teuluoedd, i ddiogelu plant sy'n agored i niwed a chynyddu cyfleoedd drwy Addewid Caerdydd, rydym wedi parhau i roi plant a phobl ifanc wrth wraidd ein blaenoriaethau a rennir.

Mae camau sylweddol hefyd wedi'u cymryd i wella lles pobl hŷn, drwy ofal integredig a chymorth cymunedol drwy'r rhaglen @Home Heneiddio'n Dda a a Chynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn o'r radd flaenaf Caerdydd. Rydym wedi parhau i ehangu mentrau iechyd ataliol, cryfhau ein sefyllfa fel Dinas Cyflog Byw, a mabwysiadu dulliau newydd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gydol oes.

Rydym wedi dyfnhau ein hymateb i'r argyfwng tai a ddatganwyd ddiwedd 2023, wedi cryfhau ein dull ar y cyd at ddiogelwch a diogelu cymunedol, ac wedi gwneud cynnydd pellach wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur - gan gynnwys ennill Gwobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Caerdydd ym mis Hydref 2024.

Y tu ôl i'r holl ddatblygiadau hyn mae cydnabyddiaeth ar y cyd na all yr heriau mwyaf brys a chymhleth sy'n ein hwynebu - tlodi, anghydraddoldeb, iechyd, a newid yn yr hinsawdd - gael eu daclo gan un sefydliad, sector neu wasanaeth yn unig. Dim ond trwy weithio partneriaeth ystyrlon, parhaus y gallwn gyflawni newid parhaol. Mae'r gred honno wedi bod wrth wraidd gwaith y BGC trwy gydol y flwyddyn.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i weithredu o dan bwysau eithriadol. Mae'r galw am wasanaethau'n

cynyddu, yn aml mewn cymhlethdod a difrifoldeb, tra bod yr adnoddau sydd ar gael i ni yn deneuach nag erioed. Mae effeithiau hirdymor llymder, etifeddiaeth y pandemig, a'r argyfwng costau byw parhaus yn parhau i effeithio ar fywydau pobl - yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed - ac yn profi gwytnwch y systemau sydd wedi'u cynllunio i'w cefnogi.

Mewn ymateb i'r heriau hyn, comisiynodd y BGC adolygiad strategol annibynnol o weithio mewn partneriaeth yn gynnar yn 2025. Canfu'r adolygiad fod gan Gaerdydd sylfaen gref i adeiladu arni - gydag uchelgais clir a rennir, diwylliant cadarnhaol o gydweithio, a hanes o gyflawni. Nododd hefyd yr angen i fynd ymhellach ac yn gyflymach: integreiddio gwasanaethau yn ddyfnach, gwneud gwell defnydd o ddata, a thargedu ymdrechion lle gallant gael yr effaith fwyaf.

O ganlyniad, mae'r BGC wedi cytuno i fabwysiadu dull 'Total Place v2.0' - rhaglen newydd o gydweithredu dwys, dan arweiniad data sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion mwyaf cymhleth a chostus sy'n wynebu ein dinas a'n cymunedau. P'un a yw'n cefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf aciwt, heb eu bodloni neu ddatblygu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig mewn cymdogaethau penodol, mae'r dull hwn yn cynrychioli ein hymrwymiad adnewyddedig i gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion trwy weithredu ar y cyd.

Mae'r heriau sydd o'n blaenau yn parhau i fod yn arwyddocaol, ond eleni mae eleni wedi dangos, trwy weithio gyda'n gilydd, rhannu mewnwelediad ac arloesi, a gwrandao ar leisiau ein cymunedau, y gallwn barhau i wneud cynnydd gwirioneddol - a helpu i sicrhau dyfodol cryfach, tecach a gwyrddach i Gaerdydd.



Huw Thomas

Huw Thomas
Cadeirydd, Bwrdd
Gwasanaethau Cyhoeddus
Caerdydd



Charles Janczewski

Charles Janczewski
Is-gadeirydd Bwrdd
Gwasanaethau Cyhoeddus
Caerdydd

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd dros y 12 mis diwethaf i gyflawni ei [Gynllun Lles Lleol 2023-28](#).

Ategir yr adroddiad blynyddol gan ddiweddariad manwl ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau BGC Caerdydd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a amlinellir yn y Cynllun Lles (Atodiad A), yn ogystal ag adroddiad 'Caerdydd yn 2025' (Atodiad B), sy'n darparu dadansoddiad tueddiadau o bob un o ddangosyddion Lles y Cynllun.

Beth yw BGC Caerdydd?

Mae BGC Caerdydd yn dod ag arweinwyr a phenderfynwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas ynghyd, gan gynnwys y rheini o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r Gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella Lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy gryfhau'r cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

Beth yw Cynllun Lles?

Mae'r Cynllun Lles yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer 2023 i 2028. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus lle mae wir angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Felly, dylid ystyried y Cynllun Lles fel dogfen i ategu cynlluniau strategol pob aelod o'r BGC, gan ganolbwyntio ar sicrhau 'mantais gydweithredol' mewn rhannau o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â phob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn cynnwys 'Amcanion Lles', meysydd gweithredu y mae BGC Caerdydd wedi'u nodi fel y rhai pwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Blaenoriaethau', neu'r camau y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros bum mlynedd nesaf y cynllun. Amcanion Lles BGC Caerdydd yw:

1. Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
2. Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
3. Cefnogi pobl allan o dlodi
4. Cymunedau diogel, hyderus a grymus
5. Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
6. Caerdydd Un Blaned
7. Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Sut y caiff y Cynllun Lles ei gyflawni?

Mae cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Lles ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn gofyn am weithredu ar draws sawl amserlen a lefel, o'r uniongyrchol a'r gweithredol, i'r hirdymor a'r strategol.

Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau, cynhaliwyd adolygiad o lywodraethu partneriaeth ar ôl-troed rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni. Mae pob blaenoriaeth yn cyd-fynd â 'Bwrdd Cyflawni' perthnasol, gyda chysylltiad â BGC Caerdydd neu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro.

Lle mae'r BPRh yn arwain ar oruchwylio a chyflawni blaenoriaethau partneriaeth (yn Amcanion Lles 1 a 2) nodir hyn yn glir.

Sut y caiff cynnydd ei fesur?

Adroddir am y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Cynllun Lles fel a ganlyn:

- Diweddariad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn ac yn Atodiad A.
- Diweddariad am berfformiad y ddinas yn erbyn y dangosyddion canlyniadau a nodwyd yn y Cynllun Lles, sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol hwn ac yn adroddiad Caerdydd yn 2025 (Atodiad B).

Mae'r data diweddaraf hefyd ar gael ar [Ddangosfwrdd Dinas-gyfan ar-lein Caerdydd](#). Mae'r Dangosfwrdd yn dod â nifer o setiau data at ei gilydd, wedi'u grwpio yn ôl gwahanol themâu, i gyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Gellir gweld y data dros amser, a lle mae ar gael, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei dorri i lawr i lefel is-Gaerdydd.

¹ Mae'r data diweddaraf sydd ar gael wedi'i gynnwys yn erbyn pob dangosydd canlyniad ar lefel y ddinas, yn ogystal â dyddiad y data diweddaraf sydd ar gael, sy'n amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad. Yn ogystal, nodir data cymharol ddiweddar, yn ogystal â gwreichlin i gynrychioli tueddiadau'r data. Mae'n bwysig nodi bod yr amserlen a ddefnyddir ar gyfer y wreiclin yn amrywio ar gyfer pob dangosydd canlyniad, wrth fod yr echelin fertigol bob amser yn dechrau ar sero. I gael rhagor o fanylion, gweler adroddiad 'Caerdydd yn 2025' sy'n rhoi dadansoddiad manwl o dueddiadau.





Amcan Lles 1:


Mae Caerdydd yn
lle gwych i gael eich
magu





Cyflwyniad

Mae Caerdydd yn parhau i gynnig dechrau gwych mewn bywyd i lawer o blant a phobl ifanc, gydag ystod eang o gyfleoedd i dyfu, dysgu a llwyddo. Fodd bynnag, mae effeithiau parhaol y pandemig, pwysau parhaus ar gyllid cartrefi, ac effaith hirdymor llymder yn parhau i lunio bywydau plant a theuluoedd ledled y ddinas. Mae anghydraddoldebau yn parhau, gyda llawer o bobl ifanc yn wynebu rhwystrau sy'n cyfyngu ar eu cyfleoedd bywyd. Mewn ymateb, mae BGC Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio ynghyd i leihau'r anghydraddoldebau hyn, rhoi cymorth cynnar a chydweithredol a gwneud Caerdydd yn ddinas lle gall pob person ifanc ffynnu.



Mesur Cynnydd

Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno		Dyddiad y data diweddaraf	Y data diweddaraf	Data Cymharol Diweddar	Tueddiad
Canran y plant mewn teuluoedd incwm isel	Incwm Isel Cymharol	2023/24	23.4 %	23.1 % (2022/23)	
	Incwm Isel Absoliwt		20.1 %	18.7 % (2022/23)	
Lles meddyliol: plant a phobl ifanc ac oedolion	Sgôr Gymedrig (11-16 oed)	2023	23.8	23.3 (2021)	
	Cyfartaledd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (Oedolion)	2022/23	49.4	Nid yw ar gael ar hyn o bryd. Nid yw'r data diweddaraf yn debyg i flynyddoedd blaenorol.	
Canran y plant rhwng 4 a 5 oed sydd â phwysau iach (neu dan bwysau)		2023/24	79.5 %	79.1 % (2022/23)	
Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n gorfforol weithgar am fwy na 60 munud ar lai na 3 diwrnod yr wythnos yn ôl sgôr cyfoeth teulu ²		2021/22	18	Nid yw ar gael ar hyn o bryd.	
Canran y plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol ³		2024	59.1 %	58.6 % (2023)	
Canran y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela)		2024/25	83.2 %	80.9 % (2023/24)	
Canran y myfyrwyr (11-16 oed) sy'n smygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd		2023	2.1 %	1.8 % (2021)	
Canran y rheini sy'n gadael ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Blwyddyn 11	2024	2.9 %	2.3 % (2023)	
	Blwyddyn 13		3.1 %	3.6 % (2023)	
Y nifer sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf		2024	34	31 (2023)	

² Y Gwahaniaeth mewn Pwynt Canran rhwng Teuluoedd Mwy Cefnog a Theuluoedd Llai Cefnog

³ Sylwer: Cyn 2024, Cyngor Caerdydd oedd yn gyfrifol am gasglu'r data hwn. Ers hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi cymryd cyfrifoldeb am gasglu data. Mae methodoleg arolwg ICC ychydig yn wahanol i'r fethodoleg a ddefnyddir gan Gyngor Caerdydd, yn ogystal â maint eu sampl.

Trosolwg o waith y BGC yn 2024/25

Dinas sy'n Dda i Blant

Ym mis Hydref 2023, daeth Caerdydd yn ddinas gyntaf y DU i gael ei chynabod yn ffurfiol fel Dinas sy'n Dda i Blant. Mae partneriaid BGC Caerdydd wedi bod yn gweithio tuag at y gydnabyddiaeth hon ers 2017, pan ymunodd y ddinas â rhaglen Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Ers hynny, mae partneriaid wedi gweithio i roi nifer o brosiectau, mentrau a chamau gweithredu uchelgeisiol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc, ledled y ddinas, yn gallu manteisio ar eu hawliau, a mynd i'r afael â'r rhwystrau a allai gyfyngu ar eu cyfleoedd bywyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth, mae ffocws wedi'i roi ar gyflawni'r Cynllun Cynaliadwyedd Dinas sy'n Dda i Blant 2023-26, sy'n nodi pedair blaenoriaeth strategol: addysg hawliau plant, cyfranogiad ac ymgysylltu, cynllunio a dylunio trefol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r cynnydd yn 2024/25 yn cynnwys dros 80% o ysgolion sy'n cyflawni statws Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, cyflwyno hyfforddiant wedi'i dargedu ar sail hawliau ar draws gwasanaethau, a mwy na 100 o weithgareddau ymgysylltu ffurfiol sy'n cynhyrchu 2,837 awr o gyfranogiad ieuencid. Mae plant a phobl ifanc wedi llunio polisi cynllunio, cyd-gynllunio adnoddau ar gyfer gweithredu cymdeithasol, ac wedi arwain ymgyrchoedd cynhwysiant ar hawliau LHDTC+, niwroamrywiaeth a thegwch rhywiol. Mae dull Caerdydd yn cael ei gydnabod fel model o arfer da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Addewid Caerdydd

Mae pobl ifanc yn parhau i gael cynnig gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau dilys, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal â phrofiad gwaith a gweithgareddau cyfoethogi'r cwrwllwm drwy Addewid Caerdydd, gyda thros 300 o gyflogwyr yn cefnogi'r fenter ar hyn o bryd.

Yn 2024/25, enwyd Addewid Caerdydd yn Sefydliad y Flwyddyn y Sector Cyhoeddus yng Ngwobrau Symudedd Cymdeithasol y DU, gan gydnabod ei effaith wrth gysylltu pobl ifanc â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Caerdydd. Cafodd mwy na 2,000 o gyfleoedd ôl-16 eu hyrwyddo drwy blatfform Beth Nesaf Caerdydd, a 'Beth nesaf?' Ehangwyd y rhaglen wobrwyo i ddarparu profiad gwaith i dros 200 o ddisgyblion Chweched Dosbarth. Mae gwaith pwrpasol hefyd ar y gweill i ehangu mynediad i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Wrth edrych ymlaen, mae sicrhau cyllid cynaliadwy yn parhau i fod yn her hanfodol. Ariennir y rhaglen yn bennaf trwy'r Gronfa Ffyniant a Rennir, sydd i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2026. Heb fuddsoddiad amgen, hirdymor, mae risg na fydd y cynnydd a wnaed hyd yma yn cael ei gynnal na'i ehangu. Er gwaethaf hyn, bydd Addewid Caerdydd yn dal i ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth strategol: grymuso partneriaid i wella dysgu; ehangu mynediad at brofiad gwaith ystyrlon; cynorthwyo â gwneud penderfyniadau gwybodus; gwneud yn fawr o werth cymdeithasol o bartneriaethau a chaffael; a datblygu cymorth wedi'i dargedu i'r rheini sy'n wynebu'r heriau mwyaf.



Iechyd a Lles

Mae plentyndod cynnar yn gyfnod critigol sy'n siapia lles meddyliol a chorfforol gydol oes. Mae iechyd a datblygiad plant 0-5 oed yn cael effaith bellgyrhaeddol - nid yn unig i unigolion a theuluoedd ond hefyd ar gymdeithas, yr economi a ffyniant cenedlaethol. I gydnabod hyn, mae [Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a Bro Morgannwg 2024](#) yn canolbwyntio ar iechyd a lles blynyddoedd cynnar. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bedwar maes allweddol lle gall gweithredu amserol, parhaus wneud gwahaniaeth sylweddol: brechiadau plentyndod, bwyd a symudiad da, iechyd y geg, a chymorth bwydo ar y fron. Mae hefyd yn nodi argymhellion clir i yrru gwelliannau yn y meysydd hyn. Er mwyn sicrhau cynnydd cydgysylltiedig, cyflwynwyd yr adroddiad i BGC Caerdydd ym mis Ionawr 2025, lle ymrwymodd partneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r nod o wella canlyniadau'r blynyddoedd cynnar.

Mae ystod o raglenni a mentrau wedi'u targedu eisoes yn mynd rhagddynt ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i gefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn ategu blaenoriaethau Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (CIC) ac yn mynd i'r afael â heriau allweddol, o iechyd meddwl a defnydd o frechiadau i ffordd o fyw ac anghenion iechyd cymhleth, gan helpu i greu system gofal a chymorth fwy integredig, teg:

- **Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl:** Mae amrywiaeth o fentrau wedi'u cyflawni drwy raglen Dechrau'n Dda BPRh Caerdydd a'r Fro i wella lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n profi trallod seicolegol aciwt. Yn 2024/25, cefnogodd y gwasanaeth CAPI dros 20 o deuluoedd trwy fodel gofal sy'n canolbwyntio ar deuluoedd sy'n seiliedig ar drawma, gan helpu bron i 90% o bobl ifanc i aros yn ddiogel yn yr uned deuluol. Mae CAPI yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth Goleudy, a roddodd gymorth dwys i 24 o'r bobl ifanc fwyaf trallodus ledled y rhanbarth. Mae mewnbyn therapiwtig seicolegol wedi parhau, trwy dîm Enfys, ar gyfer plant sy'n cael eu mabwysiadu neu sy'n derbyn gofal, tra bod gwasanaethau fel Your Family Matters a Family Lives wedi grymuso teuluoedd trwy wneud penderfyniadau a arweinir gan deuluoedd, cymorth rianta ac ymyriadau lles wedi'u teilwra. Mae heriau yn parhau ynghylch cynyddu galw a chapasiti gwasanaeth, ond mae cydweithredu aml-asiantaeth cryf yn helpu i ymgorffori dulliau mwy ataliol, sy'n seiliedig ar drawma ar draws y system.

- **Gwella'r nifer sy'n derbyn brechiad yn ystod plentyndod:** Er bod arwyddion o welliant mewn cyfraddau brechu plant ledled Caerdydd a Bro Morgannwg, mae'r defnydd cyffredinol yn parhau i fod yn is na'r targedau cenedlaethol, gyda gwahaniaethau parhaus yn gysylltiedig ag amddifadedd ac ethnigrwydd. Mewn ymateb, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i ddarparu brechiadau MMR mewn ysgolion yn unol â tharged derbyn 90% Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar ysgolion sydd â sylw hanesyddol isel. Her allweddol oedd y diffyg data imiwneiddio cywir, ar lefel ysgol; fodd bynnag, mae cydweithio â Chyngor Caerdydd yn helpu i gau'r bylchau gwybodaeth hyn, gan alluogi targedu ymyriadau yn fwy manwl gywir. Ochr yn ochr â hyn, mae proffiliau dadansodol yn cael eu datblygu ar gyfer practisau meddygon teulu i gefnogi gofal sylfaenol i nodi'r cymunedau sydd angen cymorth fwyaf. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog, gyda'r fenter Hyrwyddwyr Brechlyn yn ehangu i gynnwys mwy o gynrychiolwyr rhieni o gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ymdrechion hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan allgymorth mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol, lle mae uned frechu symudol newydd yn helpu i wella mynediad a chyfleustra i deuluoedd mewn ardaloedd sydd â defnydd hanesyddol isel.
- **Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth:** Mae BPRh Caerdydd a'r Fro yn parhau i fod yn ymrwymedig i hyrwyddo model gofal integredig sy'n cryfhau'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd ac anabledd cymhleth sy'n cyd-ddigwydd drwy ei raglen Dechrau'n Dda. Ymhlith y mentrau allweddol sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd mae'r rhaglen Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol - dull rhanbarthol, aml-asiantaeth sydd wedi'i gynllunio i wella pontio i fod yn oedolyn - yn ogystal â Gwasanaethau Anabledd Dysgu Plant a strategaethau ymyrraeth gynnar ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Wrth edrych ymlaen at 2025/26, mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gwella cefnogaeth i blant ag anghenion cymhleth iawn, datblygu model a arweinir gan anghenion ar gyfer plant niwrowahanol, datblygu datrysiad diogelu digidol, a gwella rhannu data traws-sector i sicrhau gofal mwy cydgysylltiedig, effeithlon.

Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r broses o gyflwyno [Strategaeth Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd \(2022-24\)](#) Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Caerdydd bellach wedi dod i ben, gydag adolygiad ym mis Ebrill 2025 yn cadarnhau cynnydd cryf ar draws y pedwar maes: gweithio gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid; dadansoddi a newid systemau; dewisiadau gwell, lleoedd mwy diogel; a llywodraethu ac arweinyddiaeth. Mae llawer o'r gwaith bellach wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae'n parhau i gael ei oruchwylio trwy'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid blyneddol statudol. Mae adborth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid cenedlaethol wedi parhau i fod yn gyson gadarnhaol.

Mae'r GCI yn parhau i gymryd dull sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar berthynas, gan gydnabod bod llawer o bobl ifanc sy'n ymwneud â throseddau difrifol eu hunain yn agored i niwed ac mewn perygl o ecsbloetio. Mae gweithio mewn partneriaeth agos gyda Gwasanaethau Plant, ysgolion a'r trydydd sector yn sicrhau bod cymorth cynnar, cyfannol ar waith i bobl ifanc a'u teuluoedd. Yn 2024/25, gostyngodd cyfraddau aildroseddu dros 50%, ac mae lefelau yn y ddalfa'n parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf 30% - i raddau helaeth oherwydd cyhuddiadau yn dilyn yr anhrefn yn Nhrelái ym mis Mai 2023.

Wrth edrych ymlaen, mae gwaith ar newid system yn parhau i fod yn ffocws allweddol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â chamfanteisio ac anghymesuredd. Yn ogystal, mae'r GCI yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth gyflawni Strategaeth Atal Trais y ddinas, gan gynnwys gwaith wedi'i dargedu i fynd i'r afael â throseddau cyllyll, troseddau cyfundrefnol a thrais ieuenctid difrifol. Mae Protocol Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysgol wedi'i gyflwyno, ochr yn ochr â rôl Atal Trais newydd mewn addysg i helpu i greu amgylcheddau mwy diogel a chefnogi pobl ifanc mewn perygl.

Plant a Theuluoedd

Mae Caerdydd yn parhau i wneud cynnydd sylweddol wrth drawsnewid gwasanaethau i blant a theuluoedd, gyda ffocws clir ar adnabod yn gynnar, atal a chymorth amlasiantaeth integredig - yn enwedig i'r rhai sydd mewn perygl o Brofiadau Plentynod Niweidiol (PPNau). Datblygiad mawr yn 2024/25 oedd sefydlu'r Hyb Cyngor, Cymorth ac Amddiffyn i Deuluoedd (FASPH), sy'n dod â'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol a'r Porth Teulu at ei gilydd mewn un pwynt cyswllt ar gyfer cymorth a niwed. Wrth ei fod yn ei ddyddiau cynnar, bydd y model integredig yn y pen draw yn galluogi gwneud penderfyniadau cyflymach, mwy gwybodus ac yn sicrhau ymateb amserol i bryderon diogelu, gan wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae cymorth ataliol ac wedi'i dargedu hefyd wedi'i gryfhau ar lefel leol. Mae timau Cymorth Cynnar sydd wedi'u hymgorffori yng nghlwstwr ysgolion Trelái a Chaerau wedi

gwella mynediad at gymorth ac wedi helpu i bethau rhag gwaethygu, tra bod peilot sy'n galluogi meddygon teulu i gyfeirio teuluoedd yn uniongyrchol at wasanaethau Cymorth Cynnar wedi adrodd canlyniadau cadarnhaol i 90% o'r rhai sy'n cymryd rhan. Yn ogystal, mae mentrau wedi'u targedu fel y rhaglen cyn-enedigol Baby's Best Beginning sy'n ystyriol o drawma, darpariaeth ehangach sy'n benodol i niwrowahaniaeth ac ADCG Rhianta Caerdydd, a phrosiectau creadigol fel Prosiect Hwiangerdd - sy'n cefnogi rhieni ag anghenion iechyd meddwl amenedigol - yn helpu teuluoedd sy'n wynebu mwy o risg i adeiladu gwytnwch.

Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad system gyfan i ymyrraeth gynharach a chymorth holistig, ar y cyd. Wrth edrych ymlaen, bydd y ffocws ar raddio'r hyn sy'n gweithio, ymgorffori dysgu, a pharhau i addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled y ddinas.

Cefnogi Gofalwyr Di-dâl

Gwnaeth Rhaglen Gofalwyr Di-dâl BPRh Caerdydd a'r Fro gynnydd sylweddol yn 2024/25 o ran nodi, cydnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl ledled y rhanbarth. Ar draws y rhanbarth, nodwyd a chefnogwyd 690 o ofalwyr di-dâl newydd, a chafodd 1,334 o ofalwyr fanteisio ar gyfleoedd seibiant byr trwy bartneriaid trydydd sector. Cyflwynwyd modelau gwasanaeth diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, Gofalwyr Cyfeillgar a Gofalwyr Ifanc, gyda gwaith partneriaeth yn helpu i sicrhau bod y cymorth yn hyblyg, yn hygyrch ac wedi'i deilwra i anghenion unigol. Roedd cyflenwad rhanbarthol hefyd yn cynnwys cefnogaeth i 63 o ofalwyr ifanc newydd, gyda 191 o nodau personol wedi'u gosod i adlewyrchu eu blaenoriaethau.

Yng Nghaerdydd yn benodol, cwblhawyd 535 o asesiadau gofalwyr, ac erbyn diwedd Chwarter 4, roedd 5,202 o ofalwyr di-dâl wedi'u cofrestru gyda Chyngor Caerdydd. Un enghraifft o gyflawni lleol effeithiol oedd Prosiect Lioness, prosiect sector gwirfoddol a ariennir drwy gynllun grant bach gan Gyngor Trydydd Sector Caerdydd (C2SC), a weithiodd gyda chymunedau Caerdydd i nodi gofalwyr nad oeddent yn ymwybodol o'u rôl neu'n ansicr sut i gael gafael ar gymorth. Trwy allgymorth diwyllianol sensitif, gan gynnwys ymweliadau â'r cartref ac ymgysylltu mewn lleoliadau lleol, cefnogodd y prosiect deuluoedd ynysig - llawer ohonynt sy'n wynebu rhwystrau fel iaith neu symudedd cyfyngedig - i gymryd seibiannau byr a chael mynediad at weithgareddau cymunedol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Rhaglen yn parhau i gryfhau allgymorth, cynyddu ymwybyddiaeth, a gwella mynediad cyfartal at gymorth, gan sicrhau bod mwy o bobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn cydnabod eu rôl ofalgar ac yn cael eu grymuso i gael mynediad at y gwasanaethau a'r seibiant sydd eu hangen arnynt.



Amcan Lles 2:


Mae Caerdydd yn lle
gwych i dyfu'n hŷn





Cyflwyniad

Mae Caerdydd, fel gweddill Cymru, yn profi newid demograffig sylweddol wrth i'r boblogaeth heneiddio. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniad hanfodol i fywyd y ddinas - i'w heconomi, cymunedau, a diwylliant - ond mae'r newid hwn hefyd yn dod â heriau newydd, yn enwedig i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gan weithio gyda'i gilydd, mae gan bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus gyfrifoldeb a rennir i gefnogi pobl hŷn i fyw bywydau iach, annibynnol a chysylltiedig. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn - dinas lle mae heneiddio'n cael ei ddathlu, pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso, ac mae cymorth cydweithredol o ansawdd uchel ar waith i helpu pobl i aros yn iach, aros gartref, a pharhau i gymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol.



Mesur Cynnydd

Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno	Dyddiad y data diweddaraf	Y data diweddaraf	Data Cymharol Diweddar	Tueddiad
Canran y bobl 65 oed a hŷn sy'n nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda	2022/2023	66.8 %	65.3 % (2021/2022)	
Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sydd â phwysau iach	2022/2023	46.6 %	33.1 % (2021/2022)	
Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth	2019-20	78.9 %	78.4 % (2018-19)	
Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo angen	2019-20	77.7 %	80.2 % (2018-19)	
Canran yr oedolion 65 oed ac yn hŷn sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw	2019-20	86.7 %	86.2 % (2018-19)	
Canran y bobl 65 oed ac yn hŷn sy'n dweud eu bod yn unig	2019-20	84.8 %	86.0 % (2018-19)	
Bodlonrwydd pobl hŷn ar fywyd ⁵	2022/2023	83.9 %	82.3 % (2021/2022)	

⁵ Canran y bobl hŷn (65 oed ac yn hŷn) sy'n rhoi sgôr o 7 neu uwch allan o 10 ar gyfer boddhad bywyd.

Trosolwg o waith y BGC yn 2024/25

Sefydlu gwasanaethau iechyd a gofal integredig, lleol

Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda @Home, sy'n cael ei harwain gan BPRh Caerdydd a'r Fro, yn parhau i yrru'r newid tuag at wasanaethau iechyd a gofal integredig, lleol ledled y rhanbarth. Yn 2024/25, gwnaeth y rhaglen gynnydd sylweddol, gyda chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bellach yn gweithredu ym mhob un o'r naw clwstwr meddygon teulu, gan alluogi cefnogaeth gynharach, gydgyssylltiedig i breswylwyr sy'n wael cronig a bregus. Cefnogodd y gwasanaeth Safe@Home dros 7,000 o bobl, gan helpu dros 1,000 o bobl i osgoi derbyn i'r ysbyty, tra bod mwy na 96,000 o bobl yn cael gwybodaeth, cyngor neu gymorth drwy'r gwasanaeth.

Mae model rhanbarthol ar gyfer Hybiau Gofal Integredig wedi'i gytuno, ac mae gwaith ar y gweill i dreialu atebion teleiechyd a chyflwyno cynllunio gofal wedi'i alluogi'n ddigidol. Mae presgripsiynu cymdeithasol bellach ar gael ym mhob practis meddyg teulu, ac mae manyleb nysio cymunedol newydd wedi'i datblygu i gefnogi cyflenwi mwy cyson, lleol.

Ochr yn ochr â'r rhaglen @Home, mae'r BPRh wedi cryfhau darparu gwasanaethau integredig i bobl ag anableddau dysgu a'r rhai sy'n niwrowahanol. Yn 2024/25, roedd hyn yn cynnwys sefydlu byrddau strategol newydd i yrru gwelliant, ehangu cymorth cymunedol, a buddsoddi mewn llety byw â chymorth ac ymyriadau wedi'u targedu i deuluoedd sy'n aros am asesiadau niwroamrywiaeth.

Gweithio Tuag at Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Yn 2024/25, lansiodd Caerdydd Gynllun Gweithredu Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn pum mlynedd newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â phobl hŷn, sefydliadau a chymunedau. Ers ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Bobl Hŷn yn 2022, mae Caerdydd bellach yn cael ei chydabod gan WHO fel aelod rhagorol, gyda'r Cynllun Gweithredu newydd yn cael ei ganmol fel strategaeth safonol "Aur".

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae datblygiadau allweddol wedi cynnwys hyrwyddo cyflogaeth sy'n gynhwysol i oedran drwy'r 'Addewid Cyflogwr Sy'n Dda i Bobl Hŷn', gan sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hysbysu drwy gyfathrebiadau wedi'u targedu ar daliadau tanwydd y gaeaf, brechiadau a chymorth ariannol, ac ail-lansio'r

wefan Caerdydd Sy'n Dda i Bobl Hŷn, a gyd-gynhyrchwyd gyda thrigolion hŷn i wella hygyrchedd ac ymgysylltu. Yn ogystal, datblygwyd Llawlyfr Atal Dementia, a gyhoeddwyd mewn sawl iaith a'i rannu'n eang trwy leoliadau iechyd a chymunedol.

Mae cyfranogiad gwirfoddolwyr wedi parhau i fod yn ganolog i'r rhaglen, gyda phobl hŷn yn helpu i gefnogi gofalwyr di-dâl, codi ymwybyddiaeth o ddementia mewn busnesau lleol, a chynnig cymorth cymdogol yn eu cymunedau. Ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod mae annog mwy o gyflogwyr i fabwysiadu'r Addewid Cyflogwr Sy'n Dda i Bobl Hŷn, cefnogi ymchwil i dechnoleg hygyrch, a pharhau i gryfhau cyfathrebu sy'n dda i bobl hŷn - ar-lein ac all-lein.

Gweithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia.

Mae'r Rhaglen Dementia, dan arweiniad BPRh Caerdydd a'r Fro, yn parhau i fwrw ymlaen â dull cydweithredol o wella iechyd yr ymennydd a gofal dementia ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n strategol ar ddiagnosis cynnar, ymgysylltu cynhwysol, a gweithio gyda phobl sydd â phrofiad byw i lunio cymorth a gwasanaethau.

Roedd y cynnydd yn 2024/25 yn cynnwys cynnal Clinigau Asesu Cof mewn lleoliadau gofal sylfaenol, lle roedd 62% o'r rhai a gafodd ddiagnosis yng nghyfnod cynharaf dementia, gan alluogi cynllunio ac ymyrryd amserol. Gwnaed dros 8,000 o gysylltiadau gan Weithwyr Cyswllt Asesu Cof, gan arwain at fwy na 3,000 o atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth. Yn ogystal, penodwyd dau gysylltydd dementia newydd i helpu i wella mynediad at gymorth wedi'i bersonoli, yn y gymuned.

Mae'r gwaith i godi ymwybyddiaeth wedi parhau trwy gyflwyno digwyddiadau "Agor Drysau i Ymarfer yr Ymennydd", sy'n cael eu cyd-gynhyrchu gyda phobl â phrofiad byw ac wedi cyrraedd dros 1,100 o bobl ers mis Awst 2023, gyda ffocws penodol ar gyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol. Gwelodd Addewidion Deall Dementia dwf sylweddol hefyd yn 2024/25, gyda 261 o sefydliadau newydd yn gwneud addewid, gan gyfrannu at dros 4,000 o bobl yn cael gwell dealltwriaeth o'r cyflwr.

Mae'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Dementia yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth lunio gwasanaethau, ac mae Cynllun Cyd-gynhyrchu newydd yn cael ei ddatblygu i lywio gwaith yn y dyfodol. Mae adnoddau lleihau risg hefyd wedi'u hyrwyddo trwy gydol y flwyddyn i gefnogi iechyd yr ymennydd ac ymyrraeth gynnar.

Wrth edrych ymlaen, bydd y rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau cefnogaeth leol, gwella mynediad at ddiagnosis, ac ymgorffori cyd-gynhyrchu ar draws gwasanaethau.



Amcan Lles 3


Cefnogi Pobl Allan o Diodi



Cyflwyniad

Mae Caerdydd wedi gweld twf economaidd cryf dros y degawdau diwethaf, ond mae anghydraddoldeb dwfn yn parhau, gyda rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi'u lleoli yn y ddinas. Mae'r argyfwng costau byw parhaus, wedi'i yrru gan chwyddiant a phrisiau cynyddol, wedi cynyddu pwysau ariannol ar aelwydydd ymhellach, gan ei gwneud hi'n anoddach i lawer fodloni anghenion sylfaenol ac ehangu anghydraddoldebau presennol.

Mewn ymateb, mae BGC Caerdydd yn cydnabod bod mynd i'r afael â thlodi yn gofyn am weithredu partneriaeth cydgysylltiedig ar draws sawl maes. Mae hyn yn cynnwys ehangu mynediad at swyddi o ansawdd da, hyrwyddo cyflog teg trwy uchelgais y Ddinas Cyflog Byw, gwella canlyniadau iechyd, ac atal digartrefedd gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd.



Mesur Cynnydd

Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno		Dyddiad y data diweddaraf	Y data diweddaraf	Data Cymharol Diweddar	Tueddiad
Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol ⁶		2022-23	15 %	12 % (2021-22)	
Nifer y cyflogwyr ag achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol		April 2025	225	217 (March 2024)	
Nifer y gweithwyr sy'n cael codiad cyflog i'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf		April 2025	10,211	13,322 (March 2024)	
Disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod)	Gwryw	2021-23	61.27oed	61.93oed (2020-22)	
	Benyw		61.02oed	62.53oed (2020-22)	
Bwlch amddifadedd disgwyliad oes iach adeg geni (dynion a menywod)	Gwryw	2018-20	13.7oed	19.7oed (2017-19)	
	Benyw		18.5oed	14.6oed (2017-19)	
Canran y babanod isel eu pwysau geni		2023	6.0 %	6.4 % (2022)	
Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd (% wedi'i safoni yn ôl oedran)		2021-22 a 2022-23	40.6 %	Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020-21 ymlaen â data blaenorol.	
Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd: bwlch amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf â'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf Caerdydd)		2023	14.0	16.0 (2022)	
Canran yr oedolion sy'n actif am lai na 30 munud yr wythnos (% wedi'i safoni yn ôl oedran)		2021-22 & 2022-23	21.4 %	Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020-21 ymlaen â data blaenorol.	

⁶ A breakdown by Lower Super Output Area (LSOA), using the Welsh Index of Multiple Deprivation (2019) Income Domain, can be found in the Cardiff in 2025 report.

Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno	Dyddiad y data diweddaraf	Y data diweddaraf	Data Cymharol Diweddar	Tueddiad
Canran yr oedolion sy'n weithgar am lai na 30 munud mewn wythnos: bwlch amddifadedd (y gwahaniaeth rhwng canrannau ar gyfer ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf Caerdydd)	2023	13.3 %	11.7 (2022)	
Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach (% wedi'i safoni yn ôl oedran) ⁷	2021-22 a 2022-23	39.3 %	Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020-21 ymlaen â data blaenorol.	
Canran yr oedolion sy'n smygwyr ar hyn o bryd (% wedi'i safoni yn ôl oedran)	2021-22 a 2022-23	12.3 %	Oherwydd effaith y pandemig ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu'r ystadegau hyn, ni ddylid cymharu canlyniadau o 2020-21 ymlaen â data blaenorol.	
Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i'r cyflog blynyddol gros canolrifol	2024	6.95	7.40 (2023)	
Nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd	Ebrill 2025	20	20 (Ebrill 2024)	
Tlodi bwyd: Nifer y parseli bwyd argyfwng sydd wedi'u dosbarthu o ganolfannau dosbarthu Caerdydd gan The Trussel Trust ⁸	2024-25	20,128	20,207 (2023-24)	
Canran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd	2018	9 %	Nid yw'r ffigur cymharol ar gael.	

⁷ Sylwer bod canran yr oedolion sy'n dweud bod eu pwysau'n iach yn ôl amddifadedd wedi'i chynnwys yn adroddiad Caerdydd yn 2025 - mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2009-12.

⁸ Ceir rhagor o ddata ar ddiffyg diogeledd bwyd yn adroddiad Caerdydd yn 2025.

Trosolwg o waith y BGC yn 2024/25

Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae Caerdydd yn parhau i arwain y ffordd ymhlith dinasoddd y DU wrth hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda'r Bartneriaeth Dinesig Cyflog Byw yn arwain ac yn cydlynw'n gryf. Ym mis Ebrill 2025, mae 225 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd, sy'n cwmparu mwy na 77,000 o weithwyr, gyda dros 10,000 yn derbyn codiad cyflog uniongyrchol o ganlyniad i achredu. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Caerdydd ym mis Mawrth 2025 yn amcangyfrif, ers 2012, bod mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyfrannu dros £100 miliwn i'r economi leol - gan danlinellu manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach y fenter.

Er bod cynnydd yn parhau, mae'r hinsawdd economaidd ehangach yn parhau i fod yn heriol. Yn 2024/25, nid adnewyddodd 17 o sefydliadau achrededig yng Nghaerdydd eu statws, yn bennaf oherwydd rhoi'r gorau i fasnachu. Fodd bynnag, enillodd 25 sefydliad newydd achrediad dros yr un cyfnod, gan sicrhau cynnydd net o 8. O ganlyniad, mae cyrraedd targed y ddinas o 300 o gyflogwyr achrededig erbyn Tachwedd 2025 bellach yn ymddangos yn annhebygol.

Mewn ymateb, bydd ymgyrch gyfathrebu newydd yn lansio yn haf 2025, gan dargedu cyflogwyr mewn sectorau twf a diwydiannau sydd â chyfraddau achredu is, fel lletygarwch a manwerthu. Ar yr un pryd, bydd y Bartneriaeth Dinas Cyflog Byw yn adnewyddu ei Chynllun Gweithredu tair blynedd fel rhan o gais Caerdydd i gadw ei statws Dinas Cyflog Byw ym mis Hydref 2025 - gan ailddatgan ymrwymiad hirdymor y ddinas i fynd i'r afael â thlodi mewn gweithi.



Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae partneriaid yn symud ymlaen â'r rhaglen Cynyddu Gwaith Atal trwy ddull system gyfan sy'n cryfhau atal ar draws cwrs bywyd⁹:

- **Sgrinio'r coluddyn:** Mae partneriaid yn parhau i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo derbyn sgrinio coluddyn ledled Caerdydd. Mae'r data diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2025, yn dangos bod nifer y defnydd o sgrinio coluddyn yng Nghaerdydd wedi gostwng o 65.4 % yn 2021/22 i 63.2 % yn 2023/24. Gwelwyd tuedd debyg ym mron pob awdurdod lleol arall ledled Cymru. Mae'r gostyngiad yn cyd-fynd ag ehangu'r rhaglen sgrinio i gynnwys pobl 51-54 oed, a wahoddwyd am y tro cyntaf o fis Hydref 2023. Cydnabyddir bod y defnydd yn tueddu i fod yn is ymhlith gwahoddedigion tro cyntaf a grwpiau oedran iau, sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol. Mae Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i weithio ochr yn ochr ag Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru i godi ymwybyddiaeth ac annog defnydd, yn enwedig mewn cymunedau lle mae cyfraddau sgrinio wedi bod yn is yn hanesyddol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol ar lefel leol yn 2025/26.
- **Lleihau nifer y bobl sy'n ysmegu:** Mae'r gwaith yn parhau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru am Gymru ddi-fwg erbyn 2030, gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o ysmegu o 13 % i 5 % neu is. Mae'r gweithgaredd yn canolbwyntio ar atal ysmegu a helpu pobl i roi'r gorau iddi, gydag ymdrechion wedi'u targedu mewn cymunedau lle mae cyfraddau ysmegu yn parhau i fod yn uchel. Yn 2024/25 parhawyd cyflwyno ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ysmegu, ymgysylltu â'r gymuned, a gwasanaethau cymorth trwy'r rhaglen 'Helpa Fi i Stopio', sy'n cynnig cymorth rhoi'r gorau iddi am ddim ar draws ystod o leoliadau. Mae Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus ymroddedig yn cydlynw gweithgareddau atal ledled y rhanbarth ac yn cefnogi cydweithio trwy grŵp aml-asiantaeth sy'n canolbwyntio ar leihau nifer yr achosion o ysmegu. Mae'r rhaglen 'Helpa Fi i Stopio' wedi cael ei chydabod yn genedlaethol am ei heffaith, ar ôl cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Atal mewn Gofal Iechyd yng Ngwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2025.

- **Bwyd Da a Symud:** Yn 2024, lansiwyd y Fframwaith Bwyd Da a Symud (2024-2030), gan adeiladu ar sylfeini'r Strategaeth Symud Mwy, Bwyta'n Dda ac yn nodi gweledigaeth a rennir ar gyfer byw'n iachach ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu cymunedol a phroffesiynol eang, cefnogir y fframwaith gan Gynllun Gweithredu traws-sector (2024-26), gyda chyfrifoldeb ar y cyd am weithredu ar draws partneriaid allweddol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd wedi'i wneud wrth greu amgylcheddau iachach, cryfhau cefnogaeth mewn lleoliadau cymunedol a gweithle, a galluogi mynediad mwy teg at fwyd da a symudiad. Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar hysbysebu bwyd afiach wedi'u cyflwyno ar draws seilwaith cyngor ac Ysbyty Athrofaol Cymru tra bod offer i helpu pobl i gael mynediad at gyfleoedd gweithgarwch corfforol yn cael eu datblygu a chysylltiadau rhwng gwasanaethau iechyd a chymorth a arweinir gan y gymuned yn cael eu hehangu. Yn y cyfamser, mae mecanweithiau arweinyddiaeth a chydlynu newydd wedi'u rhoi ar waith i lywio cynnydd, gwella data a mewnwleidiad, ac adeiladu capasiti ar draws y system. Er bod cynnydd cryf wedi'i wneud, mae heriau'n parhau, gan gynnwys cyfyngiadau adnoddau, bylchau mewn data, a dibyniaeth ar gyllid byrdymor. Bydd y ffocws ar gyfer 2025/26 ar ymgorffori newid a mynd i'r afael â rhwystrau systemig i sicrhau effaith hirdymor.
- **Cynhwysiant Iechyd:** Mae partneriaid BGC Caerdydd yn parhau i weithio ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol eithafol sy'n wynebu grwpiau mwyaf agored i niwed ac ymylol y ddinas¹⁰. Yn 2024/25, canolbwyntiodd y Rhaglen Cynhwysiant Iechyd ar gyflawni Cam 1 ei model, sy'n ehangu gwasanaethau allgymorth ac mewngymorth i wella mynediad i ofal iechyd. Er gwaethaf rhai oedi a achoswyd gan raglen ailsefydlu Llywodraeth Cymru a heriau ariannu, mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni. Mae allgymorth wedi'i ymestyn i hosteli ychwanegol ag angen mawr, dau safle prawf (Heol y Porth a Stryd y Castell), a pharlyrau tylino. Yn ogystal, mae'r tîm cyrraedd bellach yn weithredol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a'r Uned Achosion Brys, gan redeg yn ystod yr wythnos rhwng 8:00am a 4:00pm. Yn cynnwys nyrsys a meddyg teulu, mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion bregus i aros yn ddiogel yn yr Uned Achosion Brys lle bo hynny'n briodol, ac yn hwyluso cynllunio rhyddhau diogel pan fo angen derbyn. Mae data cynnar yn dangos bod y rhaglen yn effeithio'n gadarnhaol ar weithgarwch y GIG, gan wella canlyniadau i gleifion a staff. Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu

canolbwynt canolog i gyd-leoli gwasanaethau perthnasol.

Atal Digartrefedd a Chysgu ar y Stryd

Ym mis Rhagfyr 2023, datganodd Caerdydd argyfwng tai mewn ymateb i bwysau digynsail ar wasanaethau digartrefedd. Er gwaethaf ehangu nifer yr unedau llety dros dro ledled y ddinas, parhaodd y galw i fod yn fwy na'r cyflenwad. Ar adeg y datganiad, roedd pob un o'r 1,699 o unedau ar gapasiti llawn, tra bod rhestrau aros ar gyfer llety dros dro wedi codi 150 % ers 2021, gan danlinellu graddfa'r her.

Ers hynny, mae atal ac ymyrryd yn gynnwys wedi dod yn gonglfaen yn ymateb y ddinas. Mae gwasanaethau Atal Digartrefedd wedi cael eu cryfhau a'u gwneud yn fwy hygyrch trwy Hybiau Cymunedol a lleoliadau allgymorth eraill. Mae'r ymdrechion hyn wedi helpu i sefydlogi'r sefyllfa a sicrhau bod pobl yn derbyn cymorth cyn gynted â phosibl. Serch hynny, mae'r angen am lety dros dro yn parhau i fod yn eithriadol o uchel, ac mae gwstai yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gartrefu pobl sengl a theuluoedd, er gwaethaf eu cyfyngiadau fel atebion hirdymor.

Er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar westai, mae Caerdydd wedi arwain y ffordd yng Nghymru gyda datblygu cynlluniau arloesol 'defnydd yn y cyfamser'. Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio tir sy'n aros am ddatblygiad parhaol, gydag unedau modiwlaid o ansawdd uchel yn darparu llety mawr ei angen yn y cyfamser. Mae cynllun 156 o gartrefi wedi'i gwblhau ar hen safle Gwaith Nwy yn Grangetown, ac mae 44 o fflatiau unigol eraill wedi'u darparu yng Nghwrt Effraim. Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu'r model hwn ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Ochr yn ochr â thai modiwlaid, mae Caerdydd wedi cynyddu ei gaffaeliadau eiddo yn sylweddol i ddarparu llety dros dro ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys prynu gwesty Ibis yn Butetown ac 20 o fflatiau yng Ngerddi Howard, gyda 77 o fflatiau eraill ar Heol Richmond a cham cyntaf trawsnewidiad preswyl Harbwr Scott i'w gwblhau erbyn haf 2025.

Yn y tymor hwy, mae Rhaglen Datblygu Tai Caerdydd yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Yn 2024/25, cyflwynodd y rhaglen 217 o gartrefi cyngor newydd a chaffael 177 eiddo arall, gan ddod â chyfanswm nifer y cartrefi a ddarparwyd drwy'r rhaglen i 1,317. Gyda dros 4,000 o gartrefi ychwanegol wedi'u cynllunio ar draws 65 safle, mae'r ddinas yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â digartrefedd trwy gymorth uniongyrchol a thwf tai cynaliadwy.

¹⁰ Mae'r cysyniad o gynhwysiant iechyd fel arfer yn cynnwys ymfudwyr sy'n agored i niwed; pobl sy'n profi digartrefedd; pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar; cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a phobl sy'n cymryd rhan mewn gwaith rhyw.



Amcan Lles 4

Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymus






Cyflwyniad

Mae cymunedau yn sylfaenol i les ac yn chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu pobl â'r rhwydweithiau cymdeithasol a'r gwasanaethau bob dydd sy'n cefnogi bywydau boddhaol. Maent yn gyfoethog mewn gwybodaeth, sgiliau a gwytnwch lleol, sy'n helpu i lunio cymeriad unigryw'r ddinas.

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn un o'r dinasoedd mwyaf diogel a chynhwysol yn y DU. Mae BGC Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal ac adeiladu ar y cryfder hwn drwy weithio ar y cyd i fynd i'r afael â throseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a phob math o ecsbloetio o fewn cymunedau'r ddinas. Mae ffocws y BGC ar greu amgylcheddau diogel, croesawgar lle mae pob preswlydd yn teimlo'n hyderus, wedi'i gefnogi a'i rymuso i ffynnu.



Mesur Cynnydd

Y dangosydd canlyniadau lefel dinas y mae'r BGC yn ceisio cael effaith arno	Dyddiad y data diweddaraf	Y data diweddaraf	Data Cymharol Diweddar	Tueddiad
Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda â'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.	2021-22	63 %	69 % (2020-21)	
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.	2021-22	33 %	25 % (2020-21)	
Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio).	2021-22	63 %	66 % (2020-21)	
Cyfran y bobl sydd wedi troseddu sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc).	Gorffennaf 22 - Mehefin 23	34.0 %	33.4 % (Gorffennaf 22 - Mehefin 23)	
Canran y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd.	2024-25	74 %	74 % (2023-24)	
Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n gwirfoddoli	2022-23	32 %	30 % (2021-22)	

Trosolwg o waith y BGC yn 2024/25

Diogelwch Cymunedol

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol y BGC yn parhau i ddatblygu ac yn gweithredu strategaethau i fynd i'r afael â throseddau, anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i ddiogelu pobl rhag camdriniaeth, camfanteisio a niwed. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys:

